

FFEIL ATEGOL:

Y dull a ddefnyddiwyd i greu newidynnau 'strwythur teulu'

Cafodd yr ymatebwyr eu dosbarthu'n categorïau strwythur teulu gan ddefnyddio'r cwestiwn canlynol: "Mae pob teulu'n wahanol (er enghraifft, dydy pawb ddim yn byw gyda'i ddau riant; weithiau mae pobl yn byw gyda dim ond un rhiant, neu mae ganddynt ddau gartref, neu maent yn byw gyda dau deulu) ac fe hoffem ni glywed am dy deulu di. Ateba'r cwestiwn hwn am y cartref rwyt ti'n byw ynddo drwy'r amser neu ran fwyaf o'r amser a rho dic wrth ymyl yr OEDOLION sy'n byw yno".

• Mam	• Mam-gu/mam-guod / tad-cu/tad-cuod	• Rwy'n byw mewn gofal preswyl neu gartref plant
• Dad	• Modryb/modrybedd / ewythr/ewythrod	• Rwy'n byw'n annibynnol (ar fy mhen fy hun, neu gyda ffrindiau neu fy mhartner)
• Partner fy mam	• Brawd/brodyr a/neu chwaer/chwiorydd sy'n oedolion	• Rhywun neu rywle arall
• Partner fy nhad	• Rhieni maeth	• Nid wyf eisiau ateb

Yna, cafodd yr ymatebion eu dosbarthu'n ymatebwyr nad ydynt yn y system ofal (N = 83,551) a'r rheiny sydd mewn 'gofal maeth' (N = 589), 'gofal preswyl' (N = 143) a 'gofal gan berthynas' (hynny yw, yn byw gydag aelodau'r teulu, ond nid gyda'r fam na'r tad; N = 1,189). Ar gyfer y papur briffio, dosbarthom yr ymatebwyr i'r categori 'gofal maeth' os dywedon nhw eu bod yn byw gyda rhieni maeth (hyd yn oed os dywedon nhw eu bod yn byw gydag aelodau eraill y teulu hefyd). Defnyddiom yr un dull os dywedon nhw eu bod yn byw mewn gofal preswyl neu gartref plant. Cafodd yr ymatebwyr eu dosbarthu yn y categori 'gofal gan berthynas' os dywedon nhw eu bod yn byw gyda nain/taid, ewythr/modryb neu frodyr neu chwiorydd sy'n oedolion, a heb ddweud eu bod yn byw gyda'u mam, tad, partner eu mam neu bartner eu tad. Roedd y rheiny a ddywedodd eu bod yn byw'n annibynnol, neu gyda rhywun arall neu yn rhywle arall, wedi cael eu heithrio, oni bai eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer math arall o deulu, o fewn rheswm (llai nag 8 blwch sefyllfa byw wedi'u ticio) (N = 278); dywedodd n = 5,809 nad oedden nhw eisiau ateb, a chawsant eu heithrio, hyd yn oed os rhoddwyd tic mewn blychau eraill. Arweiniodd hyn at ddosbarthu n = 68 o ymatebwyr fel rhai sy'n byw mewn 'gofal preswyl', a dosbarthu n = 101 o ymatebwyr fel rhai sy'n byw mewn 'gofal maeth' a ddywedodd eu bod yn byw gyda'u rhieni neu eu llys-rieni hefyd. Gallai hyn adlewyrchu trefniadau gofal cymhleth neu gallai ddangos y dehonglwyd y cwestiwn mewn gwahanol ffyrdd.

Dadansoddiad sensitifrwydd

Er mwyn archwilio'r mater hwn ymhellach, cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd lle dadansoddom yr holl ddata eto gan ddefnyddio ail ddull o fynd i'r afael â'r newidyn strwythur teulu, a ddsbarthodd yr ymatebwyr fel rhai sydd mewn 'gofal maeth' neu 'ofal preswyl' os oedden nhw wedi ticio'r opsiwn hwnnw a heb ddweud eu bod yn byw gyda'u rhieni neu lys-rieni. Arweiniodd hyn at leihau maint y grwpiau 'gofal maeth' ($N = 488$) a 'gofal preswyl' ($N = 75$). Nid oedd unrhyw wahaniaethau amlwg yn y canlyniadau rhwng y rheiny a ddsbarthwyd i'r categori gofal maeth gan ddefnyddio'r dull cyntaf a'r ail ddull ac, felly, roedd yr amcangyfrifon yn rhai cadarn ni waeth pa ddull a ddefnyddiwyd. Ar gyfer ymatebwyr yn y categori gofal preswyl, roedd y dadansoddiadau oedd yn defnyddio'r dull mwy ceidwadol (sy'n eithrio pobl ifanc a roddodd ymatebion oedd o bosibl yn anghyson) yn parhau i gyd-fynd â'r canfyddiadau cychwynnol o ran cyfeiriad y gwahaniaethau rhwng grwpiau. Fodd bynnag, wrth ddadansoddi'r grŵp llai (y rhai yr oedd gennym fwy o sicrwydd ynghylch eu statws byw mewn gofal preswyl), gwelwyd bod canlyniadau gwaeth gan y grŵp hwn, ac anghysondebau mwy rhwng y rheiny mewn gofal preswyl a'r rheiny mewn categorïau eraill. Felly, mae'r dadansoddiad sensitifrwydd hwn yn rhoi mwy o hyder i ni ynghylch y prif ganfyddiad bod gan bobl ifanc mewn gofal preswyl ganlyniadau iechyd gwaeth na grwpiau eraill, ond gellir dadlau bod graddau'r gwahaniaethau wedi'u hamcangyfrif yn rhy isel gan y fethodoleg gyntaf.

Goblygiadau

Mae dosbarthu materion strwythur teulu yn sgil defnyddio data hunangofnodedig yn golygu y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau. Fodd bynnag, datgelodd dadansoddiad sensitifrwydd a ddefnyddiodd ddull mwy ceidwadol o ddsbarthu trefniadau byw fod y canlyniadau'r un fath ar gyfer y rheiny yn y categori gofal maeth, a bod y gwahaniaethau a nodwyd yn cael eu pwysleisio ymhellach ar gyfer y rheiny yn y categori gofal preswyl. Hefyd, mae'n ymddangos fod y canlyniadau'n cyd-fynd â'r 'tueddiadau' a ddengys yn y math o gynllun lleoli ar gyfer plant yng Nghymru, er enghraifft gofal preswyl yw'r cynllun yn aml ar gyfer plant sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol sylweddol (Burch, Daru & Taylor, 2018), a'r lenyddiaeth flaenorol sy'n cymharu mathau o leoliadau gofal (Li, Chng & Chu, 2019; Llosada-Gistau, Casas, & Montserrat, 2019). Gan edrych ymlaen, gallai cysylltu data gyda chronfeydd data gwasanaethau cymdeithasol ein galluogi i amlygu trefniadau byw person ifanc yn fwy clir, a dilysu'r ymatebion a ddarperir mewn arolygon cymdeithasol fel HBSC/SHRN.

Cyfeiriadau

Li, D., Chng, G. S. a Chu, C. M. (2019) 'Comparing Long-Term Placement Outcomes of Residential and Family Foster Care: A Meta-Analysis', *Trauma, Violence, & Abuse* 20(5): 653-664.

<https://journals.sagepub.com/doi/full/10.1177/1524838017726427>

Llosada-Gistau, J., Casas, F. a Montserrat, C. (2019) 'Factors Influencing the Subjective Well-Being of Adolescents in out-of-Home Care. A Mixed Method Study', *Applied Research in Quality of Life*.

<https://doi.org/10.1007/s11482-019-9708-6>

Burch, K., Daru, J. & Taylor, V. (2018) *Dadansoddiad o ganlyniadau plant a phobl ifanc 4 i 5 mlynedd ar ôl Gorchymyn Gofal terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

<https://llyw.cymru/dadansoddiad-o-ganlyniadau-plant-phobl-ifanc-4-i-5-mlynedd-ar-ol-gorchymyn-gofal-terfynol>